
# DOLUR GWDDW

## GWASANAETH LLEDDFU DOLUR GWDDW.

Dolur gwddw neu donsilitis?
Gall Fferyllwyr Llŷn eich helpu drwy roi cyngor arbenigol a thriniaeth.



**Gwasanaeth am ddim gan GIG Cymru**



## BETH YW’R GWASANAETH?

Mae’r gwasanaeth profi a thrin dolur gwddw yn galluogi fferyllydd i asesu eich symptomau a, lle bo’n briodol, cymryd swab o’ch gwddw. Bydd y prawf yn rhoi gwybod i’r fferyllydd a yw’r haint yn facteriol neu’n feirysol.

## A FYDD ANGEN SWAB GWDDW?

Bydd y fferyllydd yn gofyn cwestiynau i chi i benderfynu a oes angen i chi gael swab gwddw a chwblhau asesiad clinigol. Os yw eich atebion yn awgrymu mai haint feirysol ydyw, efallai na fydd angen swab. Os oes angen swab, bydd angen i chi aros ychydig o funudau i gael eich canlyniadau.

## BETH SY’N DIGWYDD OS YW’R PRAWF YN BOSITIF?

Mae prawf positif yn golygu ei bod yn debygol bod eich dolur gwddw wedi’i achosi gan haint bacteriol, fodd bynnag nid yw hyn bob amser yn golygu bod angen gwrthfiotigau ac efallai y gellir ei reoli gyda chyffuriau lladd poen a chyngor yn unig, yn dibynnu ar eich symptomau. Bydd y fferyllydd yn trafod gyda chi beth yw’r opsiynau ar gyfer rheoli eich dolur gwddw.

## PRYD FYDDA I’N WELL?

Fel arfer, bydd dolur gwddw (feirysol neu facteriol) yn gwella ar ei ben ei hun. Bydd 40% o achosion yn gwella o fewn 3 diwrnod ac 85% o achosion yn gwella o fewn 1 wythnos heb driniaeth.

## PWY SYDD <u>DDIM</u> YN GALLU CAEL Y GWASANAETH?

- Plant o dan 6 oed.
- Pobl â symptomau cyson sydd ddim wedi gwella ar ôl1 wythnos.
- Pobl â system imiwnedd gwannach na’r cyffredin.
- Tymheredd uchel sydd ddim yn cael ei reoli gyda paracetamol neu ibuprofen.
- Pobl â chyflyrau meddygol penodol.
- Pobl sydd wedi cael dolur gwddw 5 gwaith neu fwy yn y flwyddyn ddiwethaf.

Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i aelod o dîm y fferyllfa ac fe allen nhw roi gwybod i chi a yw’r gwasanaeth yn addas i chi.